

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 No. 1430

Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004; maent yn gymwys i Gymru yn unig a deuant i rym ar 31 Mai 2004.

Gwybodaeth Cychwyn

11 Rhl. 1 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “amodau mewnforio” (“*import conditions*”) mewn perthynas â chynnyrch, yw'r amodau a osodwyd ar gyfer mewnforio'r cynnyrch hwnnw mewn unrhyw gyfarwyddeb, penderfyniad neu reoliad a restrir yn Atodlen 2, gan gynnwys —

- amodau ynglŷn â gwlad darddiad neu sefydliad tarddiad y cynnyrch,
- gofynion penodol a osodwyd ar gyfer mewnforio'r cynnyrch hwnnw i Aelod-wladwriaeth benodol neu ardal benodol o Aelod-wladwriaeth, ac
- amodau a osodwyd ar gyfer mewnforio'r cynnyrch hwnnw at ddibenion penodol;

ystyr “archwilydd pysgod swyddogol” (“*official fish inspector*”) yw swyddog iechyd yr amgylchedd a benodwyd yn archwilydd pysgod swyddogol gan awdurdod lleol yn unol â rheoliad 6(2)(b);

ystyr “yr Asiantaeth (“*the Agency*”) yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd;

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”)—

- pan fydd awdurod iechyd porthladd, yw'r awdurodd iechyd porthladd hwnnw;
- pan nad oes unrhyw awdurdod iechyd porthladd, yw cyngor y sir neu'r fwrdeistref sirol; mae “cludydd sydd â gofal am y tro” (“*carrier who has charge for the time being*”) dros gynnrych, llwyth neu ran o lwyth yn cynnwys gyrrwr unrhyw gerbyd, peilot unrhyw awyren a meistr unrhyw long (ond nid gyrrwr unrhyw drên) sy'n cludo'r cynnyrch hwnnw, y llwyth hwnnw neu'r rhan honno o'r llwyth;

ystyr “y Cod Tollau” (“*the Customs Code*”) yw Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2913/92 sy'n sefydlu'r Cod Tollau Cymunedol(1);

ystyr “y Comisiynwyr” (“*the Commissioners*”) yw Comisiynwyr Tollau Tramor a Chartref;

ystyr “Cyfarwyddeb 92/118/EEC” (“*Directive 92/118/EEC*”) yw Cyfarwyddeb y Cyngor 92/118/EEC (sy'n gosod gofynion iechyd anifeiliaid a iechyd y cyhoedd sy'n llywodraethu masnach yn y Gymuned a mewnforynion iddi o gynhyrchion nad ydynt yn ddarostyngedig i'r gofynion hyn a nodwyd mewn rheolau Cymunedol penodol y cyfeirir atynt yn Atodiad A(I) i Gyfarwyddeb 89/662/EEC ac, o ran pathogenau, i Gyfarwyddeb 90/425/EEC)(2);

ystyr “Cyfarwyddeb 97/78/EC” (“*Directive 97/78/EC*”) yw Cyfarwyddeb y Cyngor 97/78/EC sy'n gosod yr egwyddorion sy'n llywodraethu'r dull o drefnu gwiriadau milfeddygol ar gynhyrchion sy'n dod i mewn i'r Gymuned o drydydd gwledydd(3);

ystyr “cyflwyno” (“*introduce*”) yw dod â chynnyrch i mewn; ac mae person yn cyflwyno cynnyrch i diriogaeth neu ardal, os—

- (a) y mae'r person hwnnw yn dod ag ef i mewn i'r diriogaeth neu'r ardal honno fel ei berchennog;
- (b) y mae'r person hwnnw yn dod ag ef i mewn i'r diriogaeth neu'r ardal honno fel cludydd; neu
- (c) y mae cludydd yn dod ag ef i mewn i'r diriogaeth neu'r ardal honno yn unol â chyfarwyddiadau'r person hwnnw;

ond nid yw cynnyrch ar gyfrwng cludo sy'n gweithredu'n rhyngwladol a hwnnw'n gynnyrch sydd wedi'i fwriadu i griw neu deithwyr y cyfrwng cludo hwnnw ei fwyta neu ei yfed yn cael ei gyflwyno i diriogaeth neu ardal os nad yw'n cael ei ddadlwytho, neu os yw'n cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol o un cyfrwng cludo sy'n gweithredu'n rhyngwladol i un arall yn yr un porthladd neu faes awyr ac o dan oruchwyliath, o fewn ystyr Erthygl 4(13) o'r Cod Tollau, gan y Comisiynwyr;

mae i “cylchrediad rhydd” yr un ystyr â “*free circulation*” yn Erthyglau 23(2) a 24 o'r Cytuniad a sefydlodd y Gymuned Ewropeaidd;

ystyr “cynhyrchion pysgodfeydd” (“*fishery products*”) yw pob anifail dŵ r môr a dŵ r croyw, p'un a yw'n fyw neu beidio, gan gynnwys —

- (a) anifeiliaid dyframaeth a chynhyrchion dyframaeth fel y diffinnir “*aquaculture animals*” ac “*aquaculture products*” yn Erthygl 2 o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/67/EEC ynglŷn ag amodau iechyd anifeiliaid sy'n llywodraethu gwaith rhoi anifeiliaid a chynhyrchion dyframaeth ar y farchnad(4),
- (b) molysgiaid deufalf fel y diffinnir “*bivalve molluscs*” yn Erthygl 2(1) o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/492/EEC sy'n gosod yr amodau iechyd ar gyfer cynhyrchu a rhoi ar y farchnad folysgiaid deufalf byw(5),
- (c) echinodermau, tiwnigogion a gastropodau morol, ac

(1) OJ Rhif L302, 19.10.92, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 2700/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L311, 12.12.2000, t.17).

(2) OJ Rhif L62, 15.3.93, t.49, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2003/721/EC (OJ Rhif L1260, 11.10.2003, t.21).

(3) OJ Rhif L24, 30.1.98, t.9.

(4) OJ Rhif L46, 19.2.91, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 806/2003 (OJ Rhif L122, 16.5.2003, t.1).

(5) OJ Rhif L268, 24.9.91, t.15, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 806/2003 (OJ Rhif L122, 16.5.2003, t.1).

(ch) cynhyrchion pysgodfeydd a chynhyrchion dyframaeth fel y diffinnir “*fishery products*” ac “*aquaculture products*” yn Erthygl 2 o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/493/EEC sy'n gosod yr amodau iechyd ar gyfer cynhyrchu a rhoi cynhyrchion pysgodfeydd ar y farchnad⁽⁶⁾; ond nid yw'n cynnwys mamaliaid dyfrol, ymlusgiaid a llyffantod, a rhannau ohonynt; ystyr “cynnyrch” (“*product*”) yw—

(a) unrhyw gynnrych sy'n tarddu o anifeiliaid ac a restrir yn yr Atodiad i Benderfyniad y Comisiwn 2002/349/EC (sy'n pennu'r rhestr o gynhyrchion sydd i'w harchwilio wrth fannau archwilio ar y ffin o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 97/78/EC)⁽⁷⁾;

(b) gwair; ac

(c) gwellt,

ond nid yw'n cynnwys cynhyrchion bwyd cyfansawdd fel y'u pennir yn Erthygl 3 o Benderfyniad y Comisiwn 2002/349/EC;

ystyr “cynnyrch a drawslwythwyd” (“*transhipped product*”) yw cynnyrch Erthygl 9 sydd wedi'i drawslwytho neu wedi'i ddadlwytho yn y ffordd a ddisgrifir (mewn perthynas â llwythi) yn Erthygl 9(1) o Gyfarwyddeb 97/78/EC yn y man archwilio ar y ffin ar gyfer ei gyflwyno;

ystyr “cynnyrch a ddychwelwyd” (“*returned product*”) yw cynnyrch a allforiwyd yn wreiddiol o diriogaeth dollau'r Gymuned ac sydd wedi'i ddychwelyd yno am ei fod wedi'i wrthod gan drydedd wlad;

ystyr “cynnyrch Erthygl 9” (“*Article 9 product*”) yw cynnyrch o drydedd wlad sy'n cael ei gyflwyno gyntaf i'r tiriogaethau perthnasol wrth un man archwilio ar y ffin ond sydd wedi'i fwriadu ar gyfer ei fewnforio drwy un arall, fel y'i disgrifir (mewn perthynas â llwythi) yn Erthygl 9(1) o Gyfarwyddeb 97/78/EC, p'un a yw'r cynnyrch wedi'i drawslwytho neu wedi'i ddadlwytho wrth y man archwilio cyntaf ar y ffin;

ystyr “cynnyrch nad yw'n cydymffurfio” (“*non-conforming product*”) yw cynnyrch nad yw'n cydymffurfio â'r amodau mewnforio;

ystyr “cynnyrch tramwy” (“*transit product*”) yw cynnyrch sy'n tarddu o drydedd wlad ac, yn ôl yr wybodaeth a anfonwyd ymlaen llaw ac y cyfeirir ati yn Erthygl 3(3) o Gyfarwyddeb 97/78/EC, a fydd yn destun tramwy;

ystyr “Cynulliad Cenedlaethol” (“*National Assembly*”) yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr “dogfen berthnasol” (“*relevant document*”) yw unrhyw ddogfen ofynnol ac unrhyw dystysgrif neu ddogfen filfeddygol neu fasnachol arall neu dystysgrif neu ddogfen arall sy'n ymwneud â chynnyrch, gan gynnwys maniffest unrhyw long fordwyol neu awyren;

ystyr “dogfen ofynnol” (“*required document*”) yw unrhyw dystysgrif filfeddygol wreiddiol, dogfen filfeddygol wreiddiol neu ddogfen wreiddiol arall sy'n ofynnol mewn perthynas â chynnyrch yn rhinwedd unrhyw gyfarwyddeb, penderfyniad neu reoliad a restrir yn Atodlen 2;

ystyr “gwair” (“*hay*”) yw unrhyw borfa, meillion, lwsérn neu ffawlys a sychwyd naill ai'n naturiol neu'n artiffisial, ac mae'n cynnwys unrhyw gynnrych a gafwyd drwy sychu unrhyw borfa, meillion, lwsérn neu ffawlys felly;

ystyr “gweithredydd” (“*operator*”)—

(a) mewn perthynas â man archwilio ar y ffin, yw'r person sy'n darparu mangre a chyfleusterau eraill ar gyfer cyflawni gwiriadau milfeddygol wrth y man archwilio hwnnw ar y ffin; a

(6) OJ Rhif L121, 8.5.2002, t.6, o'i ddarllen ynghyd â Phenderfyniad y Comisiwn 2002/99/EC (OJ Rhif L353, 30.12.02, t.1).

(7) OJ Rhif L268, 24.9.91, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 806/2003 (OJ Rhif L122, 16.5.2003, t.1).

(b) mewn perthynas â sefydliad tarddiad Cymunedol, warws storio drosiannol neu sefydliad cyrchfan, yw'r person sy'n ei feddiannu at ddibenion ei fusnes;

ystyr “gwellt” (“*straw*”) yw unrhyw rawnfwyd gwyrdd sydd wedi'i sychu naill ai'n naturiol neu'n artiffisial ac mae'n cynnwys unrhyw gynnyrch (ac eithrio grawn) a geir drwy sychu unrhyw rawnfwyd gwyrdd;

ystyr “gwiriad adnabod” (“*identity check*”) yw gwiriad drwy archwiliad gweledol i sicrhau bod y tystysgrifau milfeddygol neu'r dogfennau milfeddygol neu ddogfennau eraill sy'n mynd gyda llwyth yn cyfateb i'r cynhyrchion sy'n ffurfio'r llwyth, a hwnnw'n wriad sy'n cael ei gyflawni yn unol ag Erthygl 4(4)(a) o Gyfarwyddeb 97/78/EC ac Atodiad A i Benderfyniad 93/13/EEC;

ystyr “gwiriad dogfennol” (“*documentary check*”) yw'r archwiliad o'r tystysgrifau milfeddygol neu'r dogfennau milfeddygol neu ddogfennau eraill sy'n mynd gyda llwyth, ac sy'n cael ei gyflawni yn unol ag Erthygl 4(3) o Gyfarwyddeb 97/78/EC ac Atodiad A i Benderfyniad 93/13/EEC;

ystyr “gwiriad ffisegol” (“*physical check*”) yw gwiriad ar y cynnyrch ei hun (a all gynnwys gwiriadau o'r deunydd pacio a'r tymheredd a hefyd samplu a phrofi mewn labordy) sy'n cael ei gyflawni yn unol ag Erthygl 4(4)(b) o Gyfarwyddeb 97/78/EC ac Atodiad III iddi ac Atodiad C i Benderfyniad 93/13/EEC;

ystyr “gwiriad milfeddygol” (“*veterinary check*”) yw unrhyw wriad y darperir ar ei gyfer yng Nghyfarwyddeb 97/78/EC gan gynnwys gwiriad dogfennol, gwiriad adnabod a gwiriad ffisegol;

ystyr “llwyth” (“*consignment*”) yw swm o gynhyrchion o'r un math a gwmpesir gan yr un dystysgrif filfeddygol neu ddogfen filfeddygol neu ddogfen arall y darparwyd ar ei chyfer drwy ddeddfwriaeth filfeddygol, a'r rheini'n gynhyrchion sy'n cael eu cludo â'r un cyfrwng cludo ac sy'n dod o'r un drydedd wlad neu ran o drydedd wlad;

mae “mangre” (“*premises*”) yn cynnwys unrhyw adeiladwaith, gosodiad, cynhwysydd neu gyfrwng cludo;

ystyr “man archwilio ar y ffin” (“*border inspection post*”) yw —

(a) man archwilio ar y ffin sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr a gynhwysir yn yr Atodiad i Benderfyniad y Comisiwn 2001/881/EC(8); neu

(b) man archwilio ar y ffin yng Ngweriniaeth Gwlad yr Iâ neu Deyrnas Norwy sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr a gynhwysir yn yr Atodiad i Benderfyniad Rhif 86/02/COL Awdurdod Gwylidwriaeth Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA)(9);

ystyr “man archwilio ar y ffin ar gyfer cyflwyno” (“*border inspection post of introduction*”) yw man archwilio ar y ffin lle mae'r cynnyrch Erthygl 9 yn cael ei gyflwyno gyntaf i'r tiriogaethau perthnasol;

ystyr “man archwilio ar y ffin ar gyfer cyrchfan” (“*border inspection post of destination*”) yw man archwilio ar y ffin y mae cynnyrch Erthygl 9 wedi'i fwriadu i'w fewnforio drwyddo;

ystyr “mewnforio”, pan fydd yn cyfateb i'r gair “*import*” fel enw yn y fersiwn Saesneg o'r Rheoliadau hyn, yw rhyddhau i'w gylchredeg yn rhydd o fewn ystyr Erthygl 79 o'r Cod Tollau;

ystyr “milfeddyg swyddogol” (“*official veterinary surgeon*”) yw milfeddyg sydd wedi cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddi arbennig y cyfeirir ati yn Erthygl 27 o Gyfarwyddeb 97/78/EC ac sy'n cael ei benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â rheoliad 6(1)(a) neu gan awdurdod lleol yn unol â rheoliad 6(2)(a);

(8) OJ Rhif L326, 11.12.01, t.44, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2003/506/EC (OJ Rhif L172, 10.7.03, t.16).

(9) OJ Rhif L69, 13.3.2003, t.31.

ystyr “Penderfyniad 93/13/EEC” (“*Decision 93/13/EEC*”) yw Penderfyniad 93/13/EEC y Comisiwn (sy'n gosod y gweithdrefnau ar gyfer gwiriadau milfeddygol wrth fannau archwilio Cymunedol ar y ffin ar gynhyrchion o drydydd gwledydd)(10);

ystyr “perchennog” (“*owner*”), mewn perthynas â chynnyrch, llwyth neu ran o lwyth, yw'r person y mae'r eiddo yn y cynnyrch, y llwyth neu'r rhan wedi'i freinio ynddo am y tro;

ystyr “person sy'n gyfrifol dros” (“*person responsible for*”) gynnyrch, llwyth, neu ran o lwyth —

(a) tan fydd y cynnyrch, y llwyth neu'r rhan yn cyrraedd y man archwilio ar y ffin yng Nghymru am y tro cyntaf neu, yn achos cynnyrch Erthygl 9, neu lwyth neu ran o lwyth cynhyrchion Erthygl 9, tan i'r cynnyrch, y llwyth neu'r rhan gyrraedd man archwilio ar y ffin ar gyfer cyrchfan yng Nghymru yw—

(i) y person y cyfeirir ato yn Erthygl 38(1) o'r Cod Tollau sy'n dod â'r cynnyrch, y llwyth neu'r rhan i mewn i diriogaeth dollau'r Gymuned;

(ii) person y cyfeirir ato yn Erthygl 38(2) o'r Cod Tollau sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gludo'r cynnyrch, y llwyth neu'r rhan ar ôl iddo gael ei ddwyn neu ar ôl iddi gael ei dwyn i mewn i diriogaeth dollau'r Gymuned; a

(iii) person y cyfeirir ato yn Erthygl 44(2)(b) o'r Cod Tollau, a hwnnw'n berson y gweithredodd y personau y cyfeiriwyd atynt yn is-baragraffau (a)(i) a (ii) yn ei enw;

(b) o'r amser y mae'r cynnyrch, y llwyth neu'r rhan yn cyrraedd man archwilio ar y ffin yng Nghymru am y tro cyntaf, neu, yn achos cynnyrch Erthygl 9, neu lwyth neu ran o lwyth cynhyrchion Erthygl 9, o'r amser y mae'n cyrraedd man archwilio ar gyfer cyrchfan yng Nghymru, nes iddo neu iddi adael y man archwilio cyntaf hwnnw ar y ffin, neu'r man archwilio hwnnw ar y ffin ar gyfer cyrchfan yw—

(i) y person y cyfeirir ato yn Erthygl 44(2)(b) o'r Cod Tollau ac y gweithredodd y personau y cyfeiriwyd atynt yn is-baragraffau (a)(i) a (ii) yn ei enw; neu

(ii) os yw'r cynnyrch, y llwyth neu'r rhan yn cael ei storio dros dro, fel y cyfeirir at “*temporary storage*” yn Erthygl 50 o'r Cod Tollau, y person y cyfeirir ato yn Erthygl 51(2) o'r Cod Tollau sy'n ei ddal neu ei dal mewn man storio dros dro; neu

(iii) os yw'r person y cyfeiriwyd ato yn is-baragraff (b)(i) neu (ii) wedi penodi cynrychiolydd yn ei ymwneud â'r awdurdodau tollau, o fewn ystyr “*customs authorities*” yn Erthygl 5 o'r Cod Tollau, a bod cyfrifoldeb yn cael ei roi i'r cynrychiolydd hwnnw neu fod y cynrychiolydd yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros sicrhau bod y cynnyrch, y llwyth neu'r rhan yn destun gwiriadau milfeddygol, y cynrychiolydd hwnnw; ac

(c) ar ôl i'r cynnyrch, y llwyth neu'r rhan adael y man archwilio cyntaf hwnnw ar y ffin, neu, yn achos cynnyrch Erthygl 9, neu lwyth neu ran o lwyth cynhyrchion Erthygl 9, ar ôl iddo neu iddi adael y man archwilio ar y ffin ar gyfer cyrchfan yw—

(i) y person a wnaeth ddatganiad tollau, o fewn ystyr “*customs declaration*” yn Erthygl 64 o'r Cod Tollau, sy'n ymdrin â'r cynnyrch, y llwyth neu'r rhan; neu

(ii) os nad oes unrhyw ddatganiad tollau o'r fath wedi'i wneud eto, y person sy'n alluog i'w wneud;

ystyr “person y mae'n ymddangos ei fod â gofal” (“*person appearing to have charge*”) dros gynnyrch, llwyth neu ran o lwyth yw unrhyw berson, gan gynnwys cludydd, y mae'n ymddangos bod y cynnyrch hwnnw, y llwyth hwnnw neu'r rhan honno o lwyth yn ei feddiant, o dan ei warchodaeth neu ei reolaeth;

(10) OJ Rhif L9, 15.1.93, t.33, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2003/279/EC (OJ Rhif L101, 23.4.2003, t.14).

ystyr “pwynt mynediad” (“*point of entry*”) yw unrhyw fan lle mae nwyddau yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth y dollfa o dan Erthyglau 37 a 38 o'r Cod Tollau, ac eithrio man archwilio ar y ffin;

ystyr “Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002” (“*Regulation (EC) No. 1774/2002*”) yw Rheoliad (EC) No. 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor (sy'n gosod rheolau iechyd ynghylch sgil-gynhyrchion anifeiliaid nad ydynt wedi'u bwriadu ar gyfer eu bwyta gan bobl)(11);

ystyr “sefydliad cyrchfan” (“*destination establishment*”), mewn perthynas â chynnyrch, yw'r sefydliad a nodwyd yn y cofnod ynglŷn â Chyrchswlad (“*Country of destination*”) ar yr hysbysiad o gyflwyno neu roi'r cynnyrch a roddwyd yn unol â rheoliad 17;

ystyr “sefydliad tarddiad Cymunedol” (“*Community establishment of origin*”) yw'r fangre sydd wedi'i lleoli mewn Aelod-wladwriaeth lle daeth cynnyrch a ddychwelwyd i'r ffurf y cafodd ei allforio'n wreiddiol arni o'r tiriogaethau perthnasol;

ystyr “storfa longau” (“*ships' store*”) yw mangre gaeedig y cyfeirir ati yn Erthygl 13(1)(c), neu warws a gymeradwywyd yn arbennig ac y cyfeirir ati yn Erthygl 13(2)(a) o Gyfarwyddeb 97/78/EC;

ystyr “swyddog awdurdodedig” (“*authorised officer*”) yw person a awdurdodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, awdurdod lleol neu'r Asiantaeth, naill ai'n gyffredinol neu'n arbennig, i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Rheoliadau hyn, p'un a yw'r person hwnnw yn swyddog i'r Cynulliad Cenedlaethol neu i awdurdod lleol neu i'r Asiantaeth neu beidio;

ystyr “swyddog corfforaethol” (“*corporate officer*”) yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i gorff corfforaethol, neu berson sy'n honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd swydd o'r fath;

ystyr “swyddog gorfodi” (“*enforcement officer*”) yw—

- (a) swyddog awdurdodedig,
- (b) archwilydd pysgod swyddogol, neu
- (c) milfeddyg swyddogol;

ystyr “swyddog tollau” (“*customs officer*”) yw swyddog fel y diffinnir “*officer*” yn adran 1(1) o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979(12) (person a gomisiynwyd gan y Comisiynwyr);

ystyr “y swyddogaethau rheoliadol” (“*the regulatory functions*”) yw'r swyddogaethau sy'n cael eu neilltuo gan y Rheoliadau hyn i swyddogion awdurdodedig, milfeddygon swyddogol, archwilwyr pysgod swyddogol a chynorthwyr sy'n cael eu penodi yn unol â rheoliad 6;

mae i “tiriogaeth dollau'r Gymuned” yr un ystyr â “*the customs territory of the Community*” yn Erthygl 3 o'r Cod Tollau;

ystyr “y tiriogaethau perthnasol” (“*the relevant territories*”) yw ardal sy'n ffurfio tiriogaethau'r Aelod-wladwriaethau, fel y'u rhestrir yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 97/78/EC, tiriogaeth Gweriniaeth Gwlad yr Iâ a thiriogaeth Teyrnas Norwy (ac eithrio Svalbard);

ystyr “tramwy” (“*transit*”) yw tramwy o un drydedd wlad i un arall, gan fynd drwy un neu ragor o Aelod-wladwriaethau, o dan y weithdrefn dramwy allanol y cyfeirir ati yn Erthyglau 91 i 97 o'r Cod Tollau;

ystyr “trydedd wlad” (“*third country*”) yw gwlad nad yw wedi'i chynnwys yn y tiriogaethau perthnasol;

(11) OJ Rhif L273, 10.10.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 808/2003 (OJ Rhif L117, 13.5.2003, t.1), ac o'i ddarllen ynghyd â Rheoliadau'r Comisiwn (EC) Rhif 811/2003, 812/2003 ac 813/2003 (OJ Rhif L117, 13.5.2003, t.14, t.19 a t.22), a Phenderfyniadau'r Comisiwn 2003/320/EC, 2003/321/EC, 2003/326/EC a 2003/327/EC (OJ Rhif L117, 13.5.2003, t.24, t.30, t.42 a t.44).

(12) 1979 p.2.

ystyr “tystysgrif cliriad milfeddygol” (“*certificate of veterinary clearance*”) yw dystysgrif sy'n cael ei rhoi gan filfeddyg swyddogol neu archwilydd pysgod swyddogol ar y ffurf a welir fel Dalen 2 yn Atodlen 1;

mae i “warws rydd” yr un ystyr â “*free warehouse*” ac mae i “parth rhydd” yr un ystyr â “*free zone*” yn Nheitol IV, Pennod 3, Adran 1 o'r Cod Tollau;

ystyr “warws storio drosiannol” (“*intermediate storage warehouse*”) yw cyfleusterau storio oer a gymeradwywyd ar gyfer storio cynhyrchion yn drosiannol fel y cyfeirir atynt ym Mhennod 10 o Atodiad I i Gyfarwyddeb 92/118/EEC;

ystyr “warws dollfa” (“*customs warehouse*”) yw warws sy'n bodloni amodau Erthyglau 98 i 113 o'r Cod Tollau, a lle mae nwyddau yn cael eu storio yn ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn yr Erthyglau hynny ynglŷn â chadw mewn warysau tollfeydd.

(3) Mae cynhyrchion sy'n cael eu cyflwyno i Gymru o Weriniaeth Gwlad yr Iâ, ac eithrio cynhyrchion pysgodfeydd, i'w hystyried at ddibenion y Rheoliadau hyn fel rhai sy'n cael eu cyflwyno o drydedd wlad.

(4) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at offeryn Cymunedol yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygiwyd ar y dyddiad y cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud.

Gwybodaeth Cychwyn

I2 Rhl. 2 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Esemptiadau

3.—(1) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i cynhyrchion sy'n cael eu cyflwyno i Gymru o drydedd wlad gydag awdurdodiad blaenorol y Cynulliad Cenedlaethol fel samplau masnachu, i'w harddangos, neu ar gyfer astudiaethau neu ddadansoddiadau penodol.

(2) Rhaid i awdurdodiad y Cynulliad Cenedlaethol fod yn ysgrifenedig, caniateir ei wneud yn ddarostyngedig i amodau, a'i ddiwygio, ei atal neu ei ddirymu yn ysgrifenedig ar unrhyw bryd.

(3) Nid yw Rhan 3, ac eithrio rheoliad 25, a Rhannau 4 i 10 yn gymwys i'r canlynol—

(a) cig, cynhyrchion cig, llaeth a chynhyrchion llaeth o Kalaallit Nunaat (Greenland), Ynysoedd Ffarøe, Gweriniaeth Gwlad yr Iâ, Tywysogaeth Andorra, San Marino, Liechtenstein, Y Swistir, Estonia, Lithwania, Latfia, Gwlad Pwyl, Y Weriniaeth Tsiec, Slofacia, Hwngari, Slofenia, Rwmania, Bwlgaria, Malta na Gweriniaeth Cyprus sy'n cael eu cyflwyno i Gymru ym magiau personol teithiwr os ydynt wedi'u bwriadu i'r person hwnnw ei hun eu bwyta neu eu hyfed, gan gymryd i ystyriaeth natur y cynnyrch a faint ohono y gallai unigolyn ei fwyta neu ei yfed yn rhesymol;

(b) llaeth powdr babanod, bwyd babanod, a bwydydd arbennig y mae eu hangen am resymau meddygol ac sy'n cynnwys cig, cynhyrchion cig, llaeth, neu gynhyrchion llaeth sy'n cael eu cyflwyno i Gymru o drydedd wlad nad yw wedi'i phennu ym mharagraff (a)—

(i) os ydynt yn cael eu cario ym magiau personol teithiwr a'u bod wedi'u bwriadu at ddefnydd personol y person hwnnw neu er mwyn iddo eu bwyta neu eu hyfed, gan gymryd i ystyriaeth natur y cynnyrch a faint ohono y gallai unigolyn ei fwyta neu ei yfed yn rhesymol;

(ii) os nad oes angen eu cadw mewn oergell cyn eu hagog;

(iii) os ydynt yn gynhyrchion brand patent sydd wedi'u pecynnu i'w gwerthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr olaf; a

(iv) os ydynt wedi'u cynnwys mewn deunydd pacio sydd heb ei dorri; ac

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes

- (c) cynhyrchion nad yw paragraff (a) na pharagraff (b) yn ymdrin â hwy ac sy'n cael eu cyflwyno i Gymru ym magiau personol teithiwr os ydynt wedi'u bwriadu i'r person hwnnw ei hun eu bwyta neu eu hyfed neu sy'n cael eu hanfon drwy'r post neu drwy gludydd a'u cyfeirio at unigolyn preifat yng Nghymru ac eithrio o ran masnach neu sampl masnachu ac—
- (i) os nad ydynt yn gig, yn gynhyrchion cig, yn llaeth nac yn gynhyrchion llaeth;
 - (ii) os nad yw cyfanswm eu pwysau yn fwy nag un cilogram; a
 - (iii) os ydynt yn dod naill ai o drydedd wlad neu ran o drydedd wlad sy'n bodloni'r amodau a osodir ym mharagraff (4), neu sydd wedi'u trin â gwres mewn cynhywysydd aerglos yn ôl gwerth Fo o 3.00 neu fwy.
- (4) Yr amodau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (3)(c)(iii) yw bod y drydedd wlad neu ran o drydedd wlad—
- (a) yn ymddangos ar restr o drydydd gwledydd neu rannau o drydydd gwledydd y mae'n rhaid i Aelod-wladwriaethau awdurdodi mewnforio'r cynhyrchion o dan sylw, a'r rhestr honno wedi'i sefydlu drwy offeryn Cymunedol a restrir yn Atodlen 2; a
 - (b) heb fod yn wlad y mae mewnforio'r cynhyrchion o dan sylw wedi'i wahardd drwy unrhyw offeryn Cymunedol a restrir yn Atodlen 2.
- (5) Yn y rheoliad hwn ystyr “cig”, “cynhyrchion cig”, “llaeth” a “cynhyrchion llaeth” yw cynhyrchion o'r mathau hynny a restrir yn yr Atodiad i Benderfyniad y Comisiwn 2002/349/EC ac mae “cig” yn cynnwys paratodau cig.

Gwybodaeth Cychwyn

I3 Rhl. 3 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Newidiadau i ddeddfwriaeth:

Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.

[View outstanding changes](#)

Changes and effects yet to be applied to :

- [Regulations revoked by S.I. 2005/666 reg. 68](#)